

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 30/05/2022 7:00yh – O Bell

| | | | |
|-------------------------------|---------------------|-------------------------------|--------------------------|
| John Brinley Jones (Cad) | Thomas Victor Jones | Greta Hughes | David Andrew Parry |
| Gwenllian Davenport Hughes | Alan Harper-Smith | Ian Goronwy Williams | Wiliam Roger Jones |
| James Sinclair Evans | Pat Hope-Whitney | Ann Williams (Cyfieithydd) | Pat Humphreys (Clerc) |

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llaw i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

1. Presenoldeb ac ymddiheuriadau

Alaw Ceris.

2. Croesawu bawb i dymor newydd ag i'r aelodau newydd sef Pat Whitney a James Evans

Croesawyd pawb i'r cyfarfod blynyddol ac hefyd croesawyd y ddau aelod newydd gan y cadeirydd.

3. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Mae'r cadeirydd presennol wedi bod yn y gadair am bron i ddwy flynedd bellach ac felly yn gofyn am gynigion gan yr aelodau.

Mae Alan Harper Smith yn cynnig David Andrew Parry fel cadeirydd a Greta Hughes fel Is-gadeirydd. Mae David Andrew Parry yn diolch am yr enwebiad ond yn gwrthod y gadair oherwydd ymrwymadau gwaith.

Mae Thomas Victor Jones yn cynnig John Brinley Jones fel cadeirydd a David Andrew Parry fel Is-gadeirydd gan fod y ddau wedi gwneud y gwaith am bron i ddwy flynedd yn barod.

Mae James Sinclair Evans yn cynnig John Brinley Jones fel cadeirydd.

Datganodd John Brinley Jones ei fod am sefyll i lawr fel cadeirydd gan ei fod yn disgwyl i David Andrew Parry gymeryd trosodd ganddo ond mae'n deallt rhesymau David Andrew Parry dros wrthod y gadair gan ei bod yn golygu llawer iawn o waith ac amser i fod yn gadeirydd ac fel athro nid yw'r bosibl iddo ymrwymo i hyn felly mae John Brinley Jones yn fodlon cario ymlaen fel cadeirydd am flwyddyn arall.

Mae Greta Hughes yn cynnig Ian Goronwy Williams fel cadeirydd a diolchodd am yr enwebiad ond gwrthododd oherwydd nad yw yn teimlo fod ganddo ddigon o brofiad ar y funud gan mai dim ond ers blwyddyn mae o wedi bod ar y Cyngor Cymuned.

Mae Wiliam Roger Jones yn cytuno hefo James Sinclair Evans i John Brinley Jones gario ymlaen fel cadeirydd.

Mae Alan Harper Smith yn cynnig Greta Hughes fel Is-gadeirydd ac mae David Andrew Parry yn hapus hefo'r cynnig ac mae Greta Hughes yn hapus i dderbyn os yw'r Cyngor yn fodlon.

Mae Pat Hope-Whitney yn hapus i gyd-fynd hefo beth bynnag mae'r Cyngor yn ei benderfynnu gan ei bod yn newydd ar y Cyngor Cymuned.

Mae Gwenllian Davenport Hughes yn hapus hefo'r cynigion os yw David Andrew Parry, John Brinley Jones a Greta Hughes yn fodlon.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 30/05/2022 7:00yh – O Bell

Cafwyd cynnig i John Brinley Jones gario ymlaen fel cadeirydd, eiliwyd y cynnig gan Thomas Victor Jones a pasiwyd y cynnig drwy bleidlais a derbyniodd John Brinley Jones.

Cafwyd cynnig i Greta Hughes fod yn Is-gadeirydd gyda Alan Harper Smith yn eilio a cafwyd cynnig i David Andrew Parry fod yn Is-gadeirydd gyda Wiliam Roger Jones yn eilio felly cafwyd pleidlais:

O blaid Greta Hughes fel Is-gadeirydd - 2

O blaid David Andrew Parry fel Is-gadeirydd - 5

Pasiwyd drwy bleidlais i David Andrew Parry gario ymlaen fel Is-gadeirydd am flwyddyn arall.

4. **Dogfennau'r Cyngor i'w adolygu a'u pasio:**

Rheolau Sefydlog, Rheolau Ariannol, Polisi Iaith, Polisi Cyfryngau Cymdeithasol, Ffioedd Claddu, Rheolau'r Mynwentydd, Asesiad Risc, Côd Ymddygiad Aelodau, Trefn Cwyno a Rhestr Asedau. Cafodd pawb gopi o'r holl ddogfennau drwy ebost i'w darllen cyn y cyfarfod.

Cafwyd cais gan y cadeirydd i adolygu'r rhestr asedau gan nad yw'r wybodaeth am y meinciau yn gywir erbyn hyn felly fe fydd rhaid eu cywiro. Mae'r Is-gadeirydd yn cytuno ac yn gofyn am gael diweddarau y ffigwr am offer y cae chwarae hefyd gan mai'r pris gwreiddiol sydd yn dal i lawr ac mae nifer o'r offer wedi mynd erbyn hyn. Gofynnodd y cadeirydd i bawb fynd drwy'r rhestr asedau i weld os oes angen diweddarau unrhyw beth arall a'i roi ar yr agenda mis nesaf wedi i bawb gael cyfle i fynd drwyddo. Gofynnodd Wiliam Roger Jones pam nad yw y rheol sydd yn gyfraith ynglŷn â absenoldeb aelodau am gyfnod o 6 mis o'r cyfarfodydd heb ymddiheuriad yn y Rheolau Statudol a datgannodd y cadeirydd ei fod yn y llyfr melyn sydd yn gyfraith ac hefyd yn y ddogfen Canllaw'r Cynghorydd Da ac addawodd y clerc i'w anfon i bawb eto iddynt gael darllen y rheolau. Dywedodd Greta Hughes bod angen ail edrych ar yr asesiad risc hefyd sef contractwyr sydd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor Cymuned i fyny at £3,000.00 y flwyddyn ac mae angen tynnu Cof Golofn oddi arno gan nad oes Cof Golofn yn Llanbedrog, gofynnodd am gopi o'r ddogfen yswiriant cyfredol. Gofynnodd hefyd os yw gweithredoedd y Cyngor Cymuned dal yn swyddfa Ieuan Elis Owen a dywedodd y clerc ei bod wedi derbyn rhestr o'r gweithredoedd sydd yng ngofal Ieuan Elis Owen ac addawodd anfon copi i bawb er mwyn gwneud yn siwr bod y rhestr yn gyflawn. Bydd rhaid rhoi'r Asesiad Risc ar agenda mis nesaf hefyd i'w adolygu a'i diweddarau a'r clerc i anfon copi i bawb eto i fynd drwyddo cyn y pwyllgor. Dywedodd Alan Harper Smith bod angen ail edrych ar y Ffioedd Claddu gan eu bod yn isel iawn a penderfynwyd ei roi ar agenda mis Gorffennaf er mwyn eu adolygu a gofynnodd Thomas Victor Jones i'r clerc gael gwybodaeth o faint yw ffioedd Cynghorau Cymuned a Thref eraill er mwyn medru cymharu.

Penderfyniad: Pasiwyd y polisiau a'r dogfennau i gyd ac eithrio yr Asesiad Risc a'r Rhestr Asedau a fydd yn cael eu adolygu ym mhwyllgor Mehefin a'r Ffioedd Claddu a fydd yn cael eu adolygu ym mhwyllgor Gorffennaf.

Cynnig: David Andrew Parry Eilio: Thomas Victor Jones

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 30/05/2022 7:00yh – O Bell

Cofnodion Cyfarfod 30/05/2021 7:00yh – O Bell

1. Ymddiheuriadau

Alaw Ceris.

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim.

3. Cofnodion Pwyllgor 25/04/2022

Dywedodd Thomas Victor Jones bod cyfenw anghywir wedi ei roi i berson yn eitem rhif 5 ac addawodd y clerc ei gywiro.

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: Ian Goronwy Williams

Eilio: Thomas Victor Jones

4. Unrhyw Fater Brys

Deddf Trwyddedu 2003 – Cais am amrywiad o drwydded eiddo – Llanbedrog Service Station

Cafodd newid oriau agor ei basio ym mis Medi 2021 felly yn dilyn hynny mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno cynllun o'r eiddo i'r adran drwyddedu i ddangos y newidiadau mewnol o ran gosodiad y siop a dyna beth yw'r cais yma.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

Cynnig: Ian Goronwy Williams

Eilio: David Andrew Parry

Cyfieithu yn y cyfarfodydd

Gan fod dau aelod di Gymraeg ar y Cyngor Cymuned erbyn hyn mae'n rhaid cael ffordd o gyfieithu i'r ddau. Ar y funud mae'r cyfieithydd yn ffonio Alan Harper Smith ac yn cyfieithu dros y ffon iddo ond nid yw hyn yn ateb hir dymor ar gyfer cyfieithu i ddau oherwydd ni fydd y cyfieithydd hefo llaw rhydd i wneud nodiadau ond er hynny penderfynwyd i wneud hyn yn y cyfarfod heno.

Mae'r cadeirydd a'r clerc wedi bod yn ceisio cael y sianel gyfieithu ar zoom ond yn anffodus nid yw yn rhan o'r zoom pro sydd gan y Cyngor Cymuned ac felly yn mynd i gostio £46 ychwanegol bob mis. Mae'r cyfieithydd wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â Teams sef y bydd y ddarpariaeth cyfieithu drwy Teams ar gael o ddiwedd fis Mehefin am ddim. Yn ogytal a hynny mae'r cyfieithydd wedi darparu amcanbris am ddod i'r neuadd i gyfieithu unwaith y bydd y Cyngor Cymuned yn dechrau cynnal cyfarfodydd aml-leoliad sef £157.50 ond yn fodlon ei ostwng i £142.50 sy'n cynnwys llogi'r offer cyfieithu, 2 awr o gyfieithu ar y pryd, costau trafeilio a gosod yr offer ar ddechrau'r cyfarfod a'i gadw ar y diwedd, diolchodd y cadeirydd i'r cyfieithydd am y wybodaeth. Awgrymoedd Alan Harper Smith iddynt greu grŵp WhatsApp iddo ef, Pat Hope-Whitney a'r cyfieithydd ar gyfer cyfieithu yn y cyfarfodydd ond dywedodd y cadeirydd bod angen dau ddyfais yr un arnynt i wneud hynny.

Penderfyniad: Gan fod Teams yn rhan o Microsoft Office sydd ar gliniadur y clerc yr opsiwn orau ydi i ddefnyddio Teams pan fydd y ddarpariaeth ar gael a defnyddio dau ffon i gyfieithu tan hynny.

Cynnig: John Brinley Jones Eilio: David Andrew Parry

5. Deddf Diogelu Data

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 30/05/2022 7:00yh – O Bell

Yn dilyn yr etholiad 'roedd gwybodaeth bersonnol yr aelodau wedi cael eu rhoi ar facebook heb eu caniatad sydd yn erbyn y Ddeddf Diogelu Data felly mae'n rhaid bod yn ofalus o hyn allan be mae rhywun yn ei rannu ar facebook a gofynnodd y cadeirydd i'r aelodau wneud yn saff nad yw hyn yn digwydd eto. Gofynnodd y clerc i'r ddau aelod newydd os ydynt yn hapus iddi roi eu manylion cyswllt ar wefan y Cyngor Cymuned hefo'r aelodau eraill er mwyn i'r cyhoedd fedru cysylltu gyda nhw yn eu rôl fel cynghorwyr os oes angen ac fe gytunnodd y ddau.

6. Adolygu cyflog ac oriau y clerc

Yng nghytundeb cyflogaeth y clerc mae'n dweud bod angen cael gwerthusiad yn flynyddol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r clerc wedi ei chael yn anodd i wneud yr holl waith o fewn y saith awr yr wythnos sydd yn ei chytundeb a'r prif reswm am hyn ydi ers mis Mawrth 2021 mae bob gohebiaeth sef ebyst a llythyrau yn gorfod bod yn ddwyieithog ac mae angen trefnu fod bob dim yn cael ei yrru i'r cyfieithydd mewn digon o amser iddi fedru eu cyfieithu erbyn y cyfarfod ac mae hyn i gyd yn cymeryd dipyn fwy o amser. Awgrymodd y cadeirydd i godi oriau'r clerc o saith awr yr wythnos i saith awr a hanner yr wythnos a dywedodd y clerc ei bod yn hapus hefo hynny. Gofynnodd Greta Hughes os yw hyn yn ddigon iddi a dywedodd y clerc ei fod yn ddigon a diolchodd Greta Hughes i'r clerc am ei gwaith, diolchodd Thomas Victor Jones i'r clerc hefyd gan ddweud ei bod yn ddigon teg i gydnabod y gwaith ychwanegol yma drwy godi'r oriau.

Penderfyniad: Codi'r oriau o saith awr i saith awr a hanner yr wythnos.

Cynnig: Greta Hughes Eilio: David Andrew Parry

Er mwyn i'r aelodau gael trafod adolygu cyflog y clerc mae'r clerc yn gadael y cyfarfod am ychydig.

Penderfyniad: Pasiwyd yn unfrydol i godi cyflog y clerc i £16 yr awr sef £6,240.00 y flwyddyn.

Cynnig: Gwenllian Davenport Hughes Eilio: James Sinclair Evans

7. Arwyddion Busnesau yn y Pentref

Gan mai Alaw Ceris gododd y mater yma ac wedi ymddiheuro heno mae hi wedi gofyn i'r eitem yma gael ei ohirio a'i roi ar yr agenda mis nesaf.

8. Potiau Blodau

Mae angen trefnu plannu blodau yn y potiau eto eleni gan eu bod yn edrych yn fler iawn ac mae'r clerc am gysylltu hefo Rhydygwystl i drefnu hyn yr un fath a'r llynedd. Mae'r Is-gadeirydd a'i wraig wedi bod yn plannu blodau yn y ddau botyn drost y ffordd i'w tŷ nhw a'r ddau botyn blodau sydd yn nes i lawr hefyd felly gofynnodd i'r clerc adael i Rhydygwystl wybod i beidio tynnu'r bulbs mae nhw wedi eu plannu o'r potiau. Dywedodd Greta Hughes bod Sue Byford sy'n byw yn y pentref yn plannu blodau yn rhai o'r potiau ac y byddai'n syniad gyrru llythyr o ddiolch iddi hi felly mae'r clerc am drefnu hynny, diolchodd i'r Is-gadeirydd a'i wraig am eu gwaith hefyd.

9. Meinciau

Mae Roger Fisher wedi paentio rhai o'r meinciau yn barod ac mae'r cadeirydd wedi anfon lluniau ohonynt i'r aelodau. Mae'r cadeirydd hefyd wedi bod o amgylch y pentref yn ddiweddar i dynnu lluniau o'r meinciau er mwyn gweld sut gyflwr sydd iddynt a diweddarau'r rhestr eiddo.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 30/05/2022 7:00yh – O Bell

10. Rheolau ac Ymddygiad Aelodau mewn cyfarfod Cyngor Cymuned

Gan nad oes gan Cyngor Cymuned Llanbedrog reolau swyddogol ynglŷn â cynnal cyfarfod yn rhithiol mae'r cadeirydd wedi cael copi gan Gyngor Cymuned arall ac wedi rhoi dogfen at ei gilydd ac mae'r clerc wedi ei anfon i'r aelodau hefo'r agenda.

Penderfyniad: ei roi ar agenda mis nesaf a'r clerc ei anfon i'r aelodau eto iddynt gael amser i'w ddarllen cyn y cyfarfod nesaf.

11. Cais Cynllunio y Fynwent Newydd – trefnu dyddiad i gael cyfarfod safle a cyfarfod yn y neuadd.

Mae yna ddipyn o waith ynghlwn hefo'r cais cynllunio yma felly penderfynwyd cynnal cyfarfod yn y neuadd i'r aelodau i gyd i drïo sortio hyn allan cyn cyfarfod mis Mehefin. Gan fod nifer o aelodau ddim ar gael ar nifer o nosweithiau yn ystod y mis nesaf gofynnod y clerc iddynt anfon rhestr o'r dyddiadau nad ydynt ar gael iddi er mwyn ceisio trefnu dyddiad pan mae pawb yn rhydd. Penderfynwyd y bydd y cyfarfod yn cychwyn am 7yh ac nad oes angen y cyfieithydd yn y cyfarfod.

12. Toiledau

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf fe anfonodd y clerc ebost i'r swyddog sy'n gyfrifol am y toiledau cyhoeddus yn Llanbedrog i ofyn os oedd modd gwario ychydig ar y toiledau i godi'r safon. Darlennodd y clerc yr ymateb a dderbyniodd ganddo allan yn y cyfarfod sy'n dweud: Yn anffodus ar y funud nid oes arian ar gael i wneud newidiadau sylweddol i'r toiled ond mae o wedi cael ei gynnwys ar y rhestr i'w baentio ac hefyd y bydd yn cael ei ychwanegu i'r rhestr o doiledau i'w adnewydd pan fydd arian grant ar gael. Mae'r cadeirydd wedi bod yno er mwyn gweld sut gyflwr sydd yno ac nid yw'r golau yn gweithio yn y toiledau merched na'r dynion ac yn nhoiledau y dynion mae angen paentio o amgylch y sinc a'r ciwtiglau felly mae'r clerc am gysylltu nôl yn dweud hyn.

13. Llwybrau

Mainc sydd wedi cael ei llosgi ar Mynydd Tir Cwmwd

Mae'r clerc wedi cysylltu hefo'r teulu sy'n gyfrifol am y fainc sydd wedi cael ei llosgi ar Mynydd Tir Cwmwd ac maent wedi cadarnhau eu bod am fynd yno i'w sortio allan ac mae dau o'r aelodau wedi cadarnhau heno eu bod wedi gwneud hynny ynghyd â gosod plac newydd ar y fainc. Mae'r clerc wedi rhoi rhif ffôn y cadeirydd i'r teulu er mwyn iddynt gael nôl y plac sydd wedi llosgi ganddo ond nid ydynt wedi cysylltu hyd yn hyn.

Lleoli mainc newydd sydd gan y Cynghorydd Angela Russell

Mae angen penderfynnu ble i leoli'r fainc yma a dywedodd Greta Hughes gan fod y fainc yma yn blastic mi fysai'n syniad ei rhoi yn lle un o'r meincau sydd wedi pydru felly pan fydd adolygiad o'r meinciau wedi cael ei wneud fe fydd penderfynaid yn cael ei wneud bryd hynny. Yn y cyfamser mae'r clerc am gysylltu hefo Angela Russell i holi lle mae'r fainc er mwyn medru mynd i'w nôl.

Adolygu Tendir torri llwybrau, mynwent, cae chwarae a llecyn mwyniant

Mae'r tendr yn datgan mai dim ond dau doriad sydd angen ei wneud i'r llwybrau sef un diwedd mis Mehefin a un diwedd mis Gorffennaf ond nid yw hyn yn ddigon gan fod nifer o'r llwybrau wedi gor-dyfu felly fe fydd angen adolygu'r tendr eto pan fydd y gytundeb newydd

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 30/05/2022 7:00yh – O Bell

yn cychwyn. Mae'r clerch wedi cysylltu hefo'r contractwr yn barod i dorri un neu ddau o'r llwybrau sef o flaen yr ysgol ac o gwmpas y ffynnon. Dywedodd Ian Goronwy Williams ei fod wedi derbyn cwynion am y llwybr zig zag felly mae'r clerch am gysylltu hefo'r contractwr eto i dorri'r llwybr yma cyn gynted a phosibl. Cafwyd cais gan Alan Harpar Smith i dorri o amgylch yr arwydd 20mya sydd wrth yr ysgol gan fod coed wedi tyfu drosto felly mae'r clerch am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ddweud wrthynt gysylltu hefo'r perchnogion i dorri'r coed.

14. Y Fynwent

Mae giataiu'r fynwent wedi cael eu paentio gan Roger Fisher ac yn edrych yn dda iawn, mae Iwan Hughes wedi anfon ebost yn diolch i'r Cyngor Cymuned am eu paentio.

15. Cae chwarae

Nid oes modd cael diweddariad ar y cae chwarae gan fod Alaw Ceris wedi ymddiheuro heno. Dywedodd Greta Hughes fod gwellt y cae chwarae wedi tyfu yn ofnadwy yn y rhan lle mae Cyngor Gwynedd yn ei dorri ac fe eglurodd y clerch bod Alaw Ceris wedi gofyn iddi gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn wrthynt beidio ei dorri am rwan gan fod dolydd blodau gwyllt ar ganol cael eu sefydlu yno. Mae'r clerch wedi gaddo cysylltu hefo Alaw Ceris i gael gwybod lle yn union mae'r dolydd blodau gwyllt er mwyn cael Cyngor Gwynedd i dorri'r rhannau eraill.

16. Neuadd y Pentref

Ail-sefydlu is-bwyllgor penodol ar gyfer y neuadd.

Codi prisiau llogi'r neuadd

Gohirio tan mis nesaf.

Taliadau wedi eu cymeradwyo

| | |
|--|----------------|
| Cyflog y Clerch – Pat Humphreys | £366.73 |
| HMRC – PAYE Mis 1 | £91.60 |
| Ann Llwyd – Cyfieithydd | £195.00 |
| PPM Technology – paent a.y.y.b.i'r giataiu | £170.00 |
| Roger M. Fisher – llafur i baentio giataiu'r fynwent a giat y llecyn mwyniant | £390.00 |

Taliadau wedi eu Derbynn

| | |
|---|-------------------|
| Praesept 2022-2023 – Taliad cyntaf | £12,000.00 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Cyfraniad at y Toiledau Cyhoeddus 2022-2023 | £1,000.00 |
| Ad-Daliad TAW 2021-2022 | £1072.88 |

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 30/05/2022 7:00yh – O Bell

Ceisiadau Cynllunio

C22/0440/38/CC – Stad Glyn y Marian, Llanbedrog – Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed gan gynnwys torri un goeden a gwaith tocio ar goeden arall.

Penderfyniad: Gadael i Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd a'r Swyddog Coed wneud penderfyniad.

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.

C22/0426/38/LL – Penrhos Polish Village, Lôn Llanbedrog, Pwllheli – Cais llawn i ddymchwel 103 uned byw, 3 adeilad a ddefnyddir fel 4 uned llety ymwelwyr,

cartref nyrsio, ystafelloedd cysgu sgowtiaid, neuadd a gweithdy, adeilad llyfrgell/neuadd, swyddfeydd a modurdai a chodi 107 uned preswyl (100% tai fforddiadwy) ynghyd a newidiadau i'r ffordd fynediad fewnol gyda gwaith cysylltiol a thirlunio.

Mae'r Cyngor Cymuned yn siomedig ofnadwy nad ydi Cadnant Planning wedi ymateb i'r ebost dyddiedig 26 Tachwedd 2021 a anfonwyd atynt yn dilyn yr ymgynghoriad cyn cyflwyno cais gyda rhestr o gwestiynnau pwysig iddynt a cais am gael cyfarfod i drafod y mater ymhellach ac yn teimlo nad oes unrhyw opsiwn felly ond gwrthod y cais.

Penderfyniad: Gwrthod – y clerc i anfon copi o'r llythyr a anfonwyd at Cadnant Planning, yn dilyn yr ymgynghoriad cyn cyflwyno cais, i'r aelodau, er mwyn penderfynnu ar y rhesymau gwrthod.

C22/0485/38/CC – A499 Ger Glyn y Marian, Llanbedrog – Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed.

Penderfyniad: Gadael i Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd a'r Swyddog Coed wneud penderfyniad

Cais am gyfraniad ariannol.

Dim.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 9.00 y.h.